**Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

17 Hydref 2008

Annwyl Gydweithiwr

**Ymgynghoriad – Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol**

Sefydlwyd Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y pwyllgor') ar 1 Hydref 2008 i ystyried egwyddorion cyffredinol Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)('y Mesur arfaethedig') a chyflwyno adroddiad arnynt. Gallwch ddod o hyd i fanylion y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol yn:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-lg.htm

Hoffai'r pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo â'i waith craffu ar gynigion y Llywodraeth. Yn benodol, byddai'r pwyllgor yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau a nodir yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad i legislationoffice@wales.gsi.gov.uk a rhowch *Ymgynghoriad y Pwyllgor Llywodraeth Leol/ Consultation LG Committee* fel pennawd i'r e-bost. Os byddai'n well gennych anfon eich cyflwyniad ar ffurf copi caled, anfonwch hwn at Ruth Hatton, Dirprwy Glerc y Cynulliad, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai cyflwyniadau gyrraedd y swyddfa erbyn dydd Gwener 28 Tachwedd 2008**. **Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y **broses ddeddfwriaethol** yn:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-measures.htm

**Ffon / Tel: 029 2089 8008**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**


Wrth baratoi eich cyflwyniad, ystyriwch y pwyntiau a ganlyn:

- dylai eich ymateb fod mor gryno â phosibl. Defnyddiwch y pennawd uchod fel cyfeirnod i'ch ymateb;
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt ac efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad yn eu trafod yn ystod cyfarfodydd pwyllgor hefyd. **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu eich enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir yn eich cyflwyniad;**
- nodwch os ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn;
- nodwch a fyddech yn fodlon rhoi tystiolaeth ar lafar i'r pwyllgor.

Mae'r pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod tymor yr hydref.

Os oes gennych ragor o ymholiadau, cysylltwch â Gareth Williams, Clerc y pwyllgor ar 029 2089 8008 neu Ruth Hatton, y Dirprwy Glerc ar 029 2089 8019.

Yn gywir



**Janice Gregory AC**
**Cadeirydd y pwyllgor**

**Ffon / Tel: 029 2089 8008**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

**Atodiad 1**

**Y Mesur Afaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) – cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad**

1. A oes angen deddfwriaeth i ddiwygio:
   - y sail statudol ar gyfer gwella gwasanaethau gan awdurdodau lleol; a
   - strategaethau a chynllunio cymunedol?

2. Sut y bydd y Mesur arfaethedig yn newid yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd a beth fydd effaith newidiadau o'r fath o ran gwella gwasanaethau a chynllunio cymunedol?

3. A yw'r adrannau o'r Mesur arfaethedig yn briodol o ran diwygio'r sail statudol ar gyfer gwella gwasanaethau gan awdurdodau lleol a diwygio strategaethau a chynllunio cymunedol? Os na, sut y mae angen newid y Mesur?

   Wrth ystyried y cwestiwn hwn *efallai* y bydd ymgyngoreion am ystyried, yn benodol, natur y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig sy'n:

   a) rhoi dyletswyddau ar awdurdodau gwella Cymreig i:

      - wneud trefniadau i sicrhau gwella parhaus (adran 2);
      - pennu amcanion gwella i'w hunain (adran 3);
      - gwneud trefniadau i arfer eu swyddogaethau fel bod unrhyw safonau perfformiad yn cael eu cyrraedd (adran 8)

   b) rhoi pwerau cydlafurio i awdurdodau gwella Cymreig (adrannau 9 – 12 )

   c) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymreig gasglu, defnyddio a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad a hefyd cyhoeddi cynllun gwella (adrannau 13 – 15)

   d) pennu swyddogaethau rheoleiddwyr perthnasol (adran 16) a'r ddyletswydd arnynt i roi sylw i'r angen i gydlynu wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddio (adran 24)

   e) rhoi dyletswyddau ar Archwilydd Cyffredinol Cymru (adrannau 17 - 20, 22 -28)

   f) rhoi pwerau i Weinidogion Cymru (adrannau 29 – 33)

   g) ymwneud â strategaethau a chynllunio cymunedol (adrannau 37 – 46).

**Ffon / Tel: 029 2089 8008**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

4. Beth yw'r rhwystrau posibl o ran gweithredu darpariaethau'r Mesur arfaethedig (os o gwbl) ac a yw'r Mesur arfaethedig yn eu hystyried?

5. Beth yw goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig i sefydliadau, os oes rhai o gwbl? Wrth ateb y cwestiwn hwn efallai y byddwch am ystyried a ydych yn cytuno ar adran 6 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n ategol i'r Mesur arfaethedig ac, yn benodol, y datganiad: " Nid oes costau gweinyddol, cydymffurfio na chostau eraill yn deillio o ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig."

6. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar adrannau penodol o'r Mesur arfaethedig?

Ffon / Tel: 029 2089 8008
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk